



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Y Gorlan Fach
Y Caban
Ysgol Gynradd y Gorlan
Tremadog
LL49 9RN**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2017

Cyd-destun

Ail-sefydlwyd Cylch Meithrin Tremadog ym mis Ionawr 2016 o dan yr enw Cylch Meithrin Y Gorlan Fach. Mae'r cylch yn aelod cofrestredig o'r Mudiad Meithrin. Mae'r lleoliad yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Tremadog a'r cyffiniau. Cynhelir y lleoliad mewn caban ar dir yr ysgol gynradd leol.

Darperir sesiynau o ddwy awr y dydd, pum bore'r wythnos ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed. Mae 21 plentyn wedi eu cofrestru i fynychu'r sesiynau hyn, er nad yw pob un yn mynychu'r holl sesiynau. Chwech o blant tair oed sydd ar y gofrestr ac mae tri phlentyn wedi eu hariannu gan awdurdod lleol Gwynedd. Daw'r rhan fwyaf o blant o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Derbynnir plant o bob gallu a chefnidir, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Penodwyd yr arweinydd i'w swydd ym mis Medi 2015. Cyflogir pedwar o ymarferwyr, gan gynnwys y rheolwr, i weithio gyda'r plant tair blwydd oed ac maent i gyd yn meddu ar gymwysterau priodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a chafodd ei arolygu ddiwethaf ganddi ym mis Rhagfyr 2016. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn ers ei ail-gofrestru ym mis Ionawr 2016. Cafodd ei arolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2009 o dan yr enw 'Cylch Meithrin Tremadog'.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da ar draws y chwe maes dysgu
- y cynlluniau gwaith yn nodi'n glir gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws y cwricwlwm
- ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd priodol i'r plant wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'r gweithgareddau
- ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i gyfoethogi geirfa Gymraeg y plant trwy fodelu iaith yn arbennig o dda
- gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen
- gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd plant yn gadarn
- y gweithgareddau yn herio plant o bob gallu i gyflawni'n dda

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd a'i chyd-ymarferwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu cyfeiriad clir i'r lleoliad sy'n cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r pwyllgor rheoli a'r rhieni
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- ymarferwyr i gyd yn rhannu cyfrifoldebau yn dda
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn cefnogi gwaith y lleoliad yn dda ac yn ymwybodol iawn o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella
- y weithdrefn hunanarfarnu wedi gwreiddio'n dda
- yr arweinydd a'r ymarferwyr yn adnabod mwyafrif o gryfderau'r lleoliad ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn rhoi cyfle i'r plant symud yn rhydd rhwng yr ardal fewnol ac allanol wrth ddewis gweithgareddau
- A2 Mireinio'r adroddiad hunanarfarnu i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n glir ar gynnydd a lles y plant
- A3 Sicrhau bod y cynllun datblygu yn nodi'n glir faint o gyllid sydd ei angen i weithredu pob un o'r blaenoriaethau gwella

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Dd/b

Safonau:

Lles:

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r plant, yn unol â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau iddynt, ac yn cynnwys cyfleoedd iddynt arbrofi a darganfod. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da ar draws y chwe maes dysgu.

Mae'r cynlluniau gwaith yn nodi'n glir gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, a rhifedd y plant ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd da i blant ddefnyddio amrywiaeth o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, defnyddia'r plant raglen ar gyfrifiadur llechen yn llwyddiannus i'w helpu i ffurfio llythrennau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth barhaus yn yr ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn briodol ac yn cynnig dewis da o weithgareddau i'r plant. Caiff y ddarpariaeth honno ei hymestyn yn effeithiol gan dasgau addas sy'n berthnasol i thema gyfredol y dosbarth.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd priodol i'r plant wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'u gweithgareddau yn yr ardaloedd y tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau llafar a gwrando yn llwyddiannus adeg amser cylch, ac mae'r ddarpariaeth chwarae rôl yn rhoi profiadau addas iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu a rhifedd. Er enghraifft, mae rhestr siopa yn y siop fwyd i'r plant ysgrifennu yn annibynnol, ac maent yn dosbarthu anifeiliaid fferm yn ôl eu hoff fwyd yn ardal 'y byd bach'. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn cael cyfleoedd i symud yn rhydd rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol.

Mae darpariaeth bwrpasol i blant ddatblygu eu medrau corfforol ar draws yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, cânt gyfleoedd effeithiol i reoli offer gwneud marciau ar amrywiol arwynebedd, trin offer cegin yn y gegin fwd, ac i daflu pêl i fasged a chwarae â theganau mawr yn yr ardal allanol.

Mae plant y lleoliad yn elwa o ymweliadau gan amrywiaeth o bobl. Er enghraifft, daeth cyflwynydd rhaglen deledu i ddangos iaith arwyddo i'r plant, a bu'r cynghorydd lleol yn eu gwobrwyo plant am eu gwaith celf. Mae'r ymarferwyr hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd da iddynt ymweld â mannau penodol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i

godi eu hymwybyddiaeth o'u hardal leol. Er enghraifft, bu'r plant ar ymweliad â fferm leol fel rhan o thema 'Y Fferm', a threfnwyd ymweld iddynt i ganolfan arddio a'r ysbyty lleol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i gyfoethogi geirfa Gymraeg y plant trwy fodelu iaith yn arbennig o dda. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant, beth bynnag eu cefndir, yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r lleoliad hefyd yn cynllunio'n briodol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o'r dimensiwn Cymreig, a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae cyfleoedd i blant ddathlu gwyliau Cymreig fel Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi yn ogystal â chymryd rhan mewn cyngherddau a pherfformiadau yn y gymuned leol gyda phlant yr ysgol gynradd.

Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr i gyd ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cydweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau ar draws y chwe maes dysgu.

Mae gweithgareddau dyddiol y lleoliad yn drefnus a hwylus. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn gyson weithgar yn ystod pob sesiwn. Mae'r ymarferwyr wedi magu perthynas dda gyda'r plant, sy'n amlwg o'r eiliad mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad. Mae pob ymarferwr yn fodel iaith rhagorol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y plant. Mae'r ymarferwyr i gyd yn adnabod y plant a'u hanghenion yn dda, ac maent yn defnyddio cwestiynau'n bwrpasol i'w herio i gyflawni hyn orau eu gallu. Mae hyn yn datblygu gallu'r plant ac i feddwl drostyn nhw eu hunain, a gweithredu'n annibynnol.

Mae'r gweithgareddau ffocws yn herio plant o bob gallu i gyflawni'n dda. Maent wedi eu cynllunio i ddatblygu medrau penodol y plant yn effeithiol. Mae plant sydd ag anghenion penodol yn cael y sylw a'r gefnogaeth briodol i'w galluogi i wneud cynnydd sy'n addas i'w cyraeddiadau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau asesu cadarn. Mae canmoliaeth lafar i'r plant am eu hymdrechion yn amlwg, ac yn rhoi hyder iddynt ddyfalbarhau. Mae'r ymarferwyr i gyd yn arsylwi'n gyson ar y plant wrth eu gweithgareddau ac yn nodi unrhyw gynnydd arwyddocaol. Caiff yr arsylwadau hyn eu cofnodi'n gryno mewn llyfryn arsylwadau priodol yn ddyddiol, a chânt eu defnyddio'n effeithiol i roi cyfeiriad i gynlluniau gwaith dilynol.

Mae'r lleoliad yn olrhain cynnydd y plant yn gadarn, gan ddefnyddio trefn a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi darlun clir o'u cynnydd a'u cyrhaeddiad, ac yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol gynradd ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad.

Trwy sgysiau anffurfiol, a bore agored ddwywaith y flwyddyn, caiff y rhieni wybodaeth gyflawn am gynnydd eu plant. Os oes angen sylw mwy penodol, mae'r arweinydd yn rhagweithiol ac yn mynd at y rhieni perthnasol i drafod yn ddiymdroi.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadaeth y lleoliad i hyrwyddo hylendid, bwyta'n iach a chadw'n heini yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant bob amser yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd, ac ar ôl bod i'r tŷ bach. Mae amser byrbryd yn gyfle gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol pwysig a'u hymwybyddiaeth o fwydydd iach. Cânt eu hannog yn llwyddiannus i eistedd o gwmpas y bwrdd ac i fwynhau sgwrsio gyda ffrindiau a chyda'r ymarferwyr. Mae'r lleoliad yn annog y plant i ddefnyddio'r biniau sbwriel pwrpasol sydd ar gael ar gyfer ailgylchu gweddillion y ffrwythau.

Mae darpariaeth effeithiol yn bodoli ar gyfer datblygu medrau corfforol plant a chodi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn yr ardal allanol, er enghraifft trwy chwarae ar deganau mawr, a thaflu peli o dan reolaeth. Mae'r profiadau hyn yn datblygu lefelau ffitrwydd y plant ac yn eu helpu i fwynhau gweithgarwch corfforol.

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth dda ar gyfer hybu datblygiad personol a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, mae cyfleoedd priodol i blant benderfynu ar yr hyn yr hoffent ei wneud yn ystod sesiynau gweithgareddau neu ar ôl cwblhau sesiynau ffocws. Cânt eu hannog i ofyn am gymorth pan fo angen, a gwnânt hynny'n hyderus.

Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd priodol i fynychu digwyddiadau diwylliannol yng nghwmni plant yr ysgol gynradd sydd ar yr un safle, naill ai yn yr ysgol ei hun neu yn y gymuned leol. Er enghraifft, byddant yn ymuno gyda'r disgyblion cynradd pan fyddant yn mynd i'r ysbyty lleol i ddiddanu cleifion.

Caiff datblygiad moesol ac ysbrydol ei ddatblygu'n effeithiol gan yr ymarferwyr. Cyn bwyta byrbryd, maent yn arwain y plant mewn gweddi fer, ac eto ar ddiwedd pob sesiwn. Maent yn hybu a modelu ymddygiad cwrtais a da yn gyson, sy'n golygu bod plant yn dangos parch at ei gilydd a thuag at oedolion.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol i hybu dealltwriaeth y plant o ddiwylliannau a chrefyddau eraill trwy roi cyfleoedd iddynt wisgo dillad gwahanol a'u dysgu i ddweud ambell frawddeg syml yn Sbaeneg, er enghraifft. Maent yn nodi gwyliau penodol o wledydd ar draws y byd, er enghraifft y flwyddyn newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol i fodloni gofynion plant sydd ag anghenion dysgu neu gymdeithasol ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i gyfeirio plant at asiantaethau sy'n darparu cefnogaeth addas, fel therapydd lleferydd neu gwnselydd arbenigol, er enghraifft. Mae'r plant sydd ei angen yn derbyn cefnogaeth arbennig o effeithiol. Mae hon yn nodwedd arbennig o waith y lleoliad.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad, sydd mewn caban ar gampws yr ysgol gynradd leol, yn gymuned hapus a chroesawgar lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl weithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais priodol ar ofal a pharch. Mae'r ethos Cymraeg a Chymreig yn gadarn ac yn rhan greiddiol o'r gweithgareddau.

Mae'r adeilad yn briodol i ateb gofynion y ddarpariaeth ac anghenion y plant. Mae'r arweinydd wedi trefnu'r ardaloedd mewnol ac allanol i hyrwyddo athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r ardaloedd dysgu yn ddeniadol ac yn cynnwys adnoddau addas i gefnogi datblygiad y plant ar draws y chwe maes dysgu. Mae'r waliau'n cynnwys arddangosfeydd lliwgar sy'n symbylu'r dysgu, ac yn dathlu gwaith y plant mewn modd diddorol. Mae gan y lleoliad adnoddau da sy'n atgyfnerthu'r dysgu yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal leol i atgyfnerthu profiadau'r plant, er enghraifft trwy fynd â nhw i weld yr ieir sy'n cael eu cadw gan blant yr ysgol gynradd gyfagos i gefnogi gwaith ar y thema 'Y Fferm'.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan yr arweinydd a'i chyd-ymarferwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu cyfeiriad clir i'r lleoliad. Mae'n canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r pwyllgor rheoli a'r rhieni, ac yn gweithredu'n unol â hi yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn cyfarfod yn ddyddiol cyn dechrau'r sesiwn i drafod rhediad y diwrnod, ac yn achlysurol ar gyfer cynllunio gwaith. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n dda ar faterion sy'n ymwneud â chynnydd a lles, ac ar sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae ymdeimlad cryf o dîm yn y lleoliad, gyda'r ymarferwyr i gyd yn rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol, gan gydweithio'n dda iawn. O ganlyniad, mae rhediad dyddiol y lleoliad yn llyfn, ac mae cynnydd a lles plant yn ganolog i'w weithgarwch.

Mae'r holl bolisiau statudol yn eu lle, ac wedi eu diweddarau'n briodol. Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael sylw priodol. Er enghraifft, mae pwyslais clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, ynghyd ag ymgais dda i gefnogi'r plant mwyaf bregus er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gorff bywiog, gyda swyddogion effeithiol sy'n sicrhau parhad i'w weithgarwch. Mae aelodau'r pwyllgor yn cefnogi gwaith y lleoliad yn dda ac yn ymwybodol iawn o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefn hunanarfarnu'r lleoliad wedi gwreiddio'n dda. Mae'n cynnwys yr ymarferwyr ac aelodau o'r pwyllgor rheoli yn effeithiol. Mae amserlen addas yn ei lle, ac mae'r ymarferwyr yn ei dilyn yn effeithiol, gan gynnwys treulio amser penodol i ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun gwella blaenorol. Ar rai materion, caiff rhieni gyfle i leisio'u barn, ac mae'r ymarferwyr yn eu hystyried o ddifrif. Er enghraifft, yn dilyn cais gan rieni mewn holiadur a anfonwyd atynt, sefydlwyd bore agored blynyddol ar eu cyfer.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno, yn fanwl ac yn ymwneud yn briodol ag arfarnu holl agweddau ar waith y lleoliad. Ar y cyfan, mae'r cynnwys yn lled arfarnol ac yn adnabod y mwyafrif o'r cryfderau a'r blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, ar adegau, wrth arfarnu'r ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, nid yw'r adroddiad bob amser yn canolbwyntio'n ddigon clir ar effaith benodol y blaenoriaethau ar gynnydd a lles plant.

Mae blaenoriaethau cynllun datblygu'r lleoliad yn codi'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu. Ar y cyfan, mae'n canolbwyntio'n briodol ar gynnydd plant ac ar gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae'n nodi'n glir yr hyn sydd angen ei wella, sut mae hynny i ddigwydd, a chanlyniadau'r gweithgarwch. Mae'n dangos pwy sy'n gyfrifol am bob blaenoriaeth gwella, pa adnoddau sydd angen i'w gweithredu, ac erbyn pryd y bydd y gweithgarwch wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n ddigon clir faint o gyllid sydd ei angen i weithredu pob un o'r blaenoriaethau gwella.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda'r rhieni, gyda gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu'n gyson rhwng y naill ochr a'r llall. Er enghraifft, mae'r hysbysfwrdd yn y fynedfa yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am drefn a rhediad y lleoliad. O ganlyniad i'r cysylltiadau hyn, mae gan rieni wybodaeth eglur am waith y cylch a chynnydd eu plant.

Mae cysylltiadau cadarn yn bodoli rhwng y lleoliad â'r ysgol gynradd leol, sydd ar yr un safle. Mae hyn yn gymorth da i baratoi'r plant ar gyfer trosglwyddo yno pan ddaw'r amser. Yn benodol, mae pennaeth yr ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac wedi datblygu perthynas weithio dda gyda'r ymarferwyr. Mae plant y lleoliad yn ei hadnabod yn dda. Maent hefyd yn ymweld â dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn gyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod y flwyddyn cyn trosglwyddo. Trwy'r broses olrhain cynnydd plant, trosglwyddir gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon Cyfnod Sylfaen yr ysgol. Mae trefniadau da hefyd yn bodoli i blant y lleoliad ddefnyddio adnoddau'r ysgol gynradd, er enghraifft y cae chwarae ac arsylwi ar y cwt ieir.

Mae'r lleoliad yn manteisio'n dda ar gefnogaeth yr awdurdod lleol trwy gyfrwng sesiynau hyfforddiant perthnasol a chefnogaeth ymgynghorol ar y Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol fel cefnogaeth i deuluoedd bregus a chydweithio â therapydd lleferydd.

Yn yr un modd, maent yn elwa'n dda o arweiniad a hyfforddiant y Mudiad Meithrin. Mae'r swyddog cyswllt lleol yn ymwelydd cyson, ac yn rhoi cyngor a hyfforddiant ar faterion polisi, iechyd a diogelwch a rhai elfennau o'r ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn rhan naturiol o'i gymuned. Mae'r gweithgareddau cwricwlaidd yn denu cefnogaeth pobl yr ardal, trwy eu cynnwys mewn ymweliadau â mannau penodol, lleol, a thrwy sicrhau bod y plant yn cymryd rhan weladwy yn nigwyddiadau'r fro.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan y lleoliad ddigon o staff cymwys sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae'r arweinydd wedi dyrannu cyfrifoldebau'n glir ac, o ganlyniad, mae'r lleoliad yn rhedeg yn hwylus. Mae pob aelod o staff yn derbyn cyfleoedd priodol i fanteisio ar hyfforddiant mewn meysydd i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o nifer o feysydd perthnasol.

Mae'r drefn ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae'n cynnwys arfarniadau blynyddol tua diwedd tymor yr haf, a gweithgareddau monitro parhaus ar hyd y flwyddyn. Caiff rheoli perfformiad yr arweinydd ei weithredu gan y person cofrestredig ar ran y pwyllgor rheoli.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn rheoli'r ystod dda o adnoddau yn llwyddiannus i ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn monitro a gwerthuso'r defnydd a wneir o'r adnoddau'n effeithiol.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am reolaeth ariannol y lleoliad, gan gynnwys taliadau gan rieni a grantiau gan yr awdurdod lleol. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni'n effeithiol, ac mae'r pwyllgor yn weithredol iawn wrth drefnu gweithgareddau codi arian ar hyd y flwyddyn. Mae sefyllfa ariannol y lleoliad yn iach.

Oherwydd y ddarpariaeth effeithiol, ac ansawdd da yr addysgu, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol.
		79%	20%	0%	0%		
My child likes this setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.
		84%	16%	0%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad.
		86%	14%	0%	0%		
My child is making good progress at the setting.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.
		81%	19%	0%	0%		
Children behave well in the setting.	16	13 81%	2 12%	0 0%	0 0%	1	Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.
		72%	28%	1%	0%		
Teaching is good.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		80%	19%	0%	0%		
Staff treat all children fairly and with respect.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		83%	16%	0%	0%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		76%	24%	0%	0%		
My child is safe at the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
		84%	15%	0%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		72%	27%	1%	0%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf					Don't know Ddim yn gwybod	
		Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf				
I am kept well informed about my child's progress.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.	
		63%	31%	5%	1%			
I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.	
		80%	19%	1%	0%			
I understand the setting's procedure for dealing with complaints.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.	
		65%	31%	3%	1%			
My child is well prepared for moving on to school.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.	
		73%	26%	1%	0%			
There is a good range of activities including trips or visits.	16	12 75%	4 25%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.	
		63%	32%	4%	1%			
The setting is well run.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.	
		82%	18%	1%	0%			

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Terwyn Tomos	Arolygydd Cofnodol
--------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.